WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Gwasanaethau Mamolaeth – asesu'r cynnydd – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**


Blwyddyn Archwilio: 2018

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 727A2018-19

Paratowyd y ddogfen fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Philip Jones

# Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael yn sylweddol â'r heriau gweithredol a strategol a oedd yn gysylltiedig â'i wasanaeth mamolaeth sydd bellach ag arweinyddiaeth gref, er bod cyfraddau Toriad Cesaraidd yn dal i fod yn uchel.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Ein canfyddiadau 4

Meysydd i'w gwella 5

Atodiadau

Atodiad 1 – cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud yn erbyn ein meysydd i'w gwella yn 2011 6

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad

1 Ym mis Ebrill 2011, fe gynhalion ni adolygiad dilynol i ganfod a oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) wedi gwneud gwelliannau o ran cynllunio a chyflenwi gwasanaethau mamolaeth mewn ymateb i faterion a nodwyd mewn adroddiadau lleol a chenedlaethol blaenorol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran gwella'i wasanaethau mamolaeth; fodd bynnag, roedd angen arweinyddiaeth ac ymgysylltiad cryfach gan obstetregwyr er mwyn ymateb i heriau gweithredol a strategol.

2 Fe argymhellodd ein hadroddiad yn 2011 nifer o feysydd i'w gwella:

- Canlyn arni â chynigion cynllunio ar gyfer y dyfodol;
- Diffyg obstetregydd ymgynghorol arweiniol ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan;
- Diffyg system wybodaeth ar gyfer mamolaeth;
- Diffygion o ran rheoli perfformiad ac atebolrwydd;
- Cynnal ymgysylltiad defnyddwyr;
- Cefnogi gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol; a
- Ffactorau sy'n rhwystr i lefel normal o ofal mamolaeth.

3 Fel rhan o'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2017, fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gynnwys gwaith lleol i dracio'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad ar yr adolygiad dilynol o Wasanaethau Mamolaeth y 2011. Dechreuodd y diweddariad hwn ar gynnydd ym mis Chwefror 2018 ac roedd yn gofyn y cwestiwn canlynol: : **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud digon o gynnydd mewn ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad gwreiddiol?**

4 Wrth gynnal y diweddariad hwn ar gynnydd, fe wnaethom y canlynol:

- anfon hunanasesiad at y Bwrdd Iechyd a gwblhawyd ac a ddychwelwyd atom;
- adolygu nifer o ddogfennau gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u hatodi wrth yr hunanasesiad; a hefyd
- cynnal cyfweliadau gyda staff y Bwrdd Iechyd i drafod cynnydd, materion cyfredol a heriau yn y dyfodol.

5 Rydym yn crynhoi ein canfyddiadau yn yr adran ganlynol. Ceir gwybodaeth fanylach yn Atodiad 1.

## Ein canfyddiadau

6 Rydym yn dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael yn sylweddol â'r heriau gweithredol a strategol a oedd yn gysylltiedig â'i wasanaeth mamolaeth sydd bellach ag arweinyddiaeth gref, er bod cyfraddau Toriad Cesaraidd yn dal i fod yn uchel.

7 Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion blaenorol.

Arddangosyn 1: statws argymhellion 2011

| Meysydd i’w gwella | Wedi’u rhoi ar waith | Ar y gweill | Yn hwyr | Wedi’u disodli |
|---|---|---|---|---|
| 7 | 6 | 1 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

8 Canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd yn erbyn pob un o’r meysydd i’w gwella a nodwyd yn 2011. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi:

- gweithredu rhaglen fawr i ailgyflunio gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig ym mis Awst 2014 ac wedi cyflwyno nifer o wasanaethau newydd yn unol â’i ddull strategol newydd;
- penodi obstetregydd ymgynghorol arweiniol ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan yn 2014 fel rhan o’r rhaglen i ailgyflunio gwasanaethau newyddenedigol, mamolaeth a phediatrig;
- mynd i’r afael â’r diffyg system wybodaeth am famolaeth. Mae wedi rhoi modiwl mamolaeth system Myrddin ar waith ar bob safle i gasglu ystadegau a ddefnyddir i boblogi’r Dangosfwrdd mamolaeth yn electronig. Cyhoeddir y dangosfwrdd yn fisol;
- sicrhau bod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Menywod a Phlant yn cael y dangosfyrddau mamolaeth, ynghyd â diweddariadau ar dargedau Haen 1 cyfredol. Defnyddir yr wybodaeth i fonitro perfformiad gwasanaethau ac i arwain gwaith cynllunio;
- datblygu fframwaith rheoli perfformiad a threfniadau atebolrwydd sy’n cynnwys adolygiadau gan y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr gweithredol gyda thimau’r cyfarwyddiaethau o bob agwedd ar berfformiad, gan gynnwys ansawdd a diogelwch, gwella profiad cleifion, y gweithlu, effeithlonrwydd, perfformiad Haen 1 a pherfformiad ariannol;
- cymryd nifer o gamau i fynd i’r afael â materion ymgysylltiad defnyddwyr;
- comisiynu gwerthusiad gan Goleg Brenhinol y Pediatryddion ac Iechyd Plant o’r newidiadau i’r gwasanaeth yn 2015. Mae wedi datblygu cynllun gwaith cynhwysfawr i gefnogi datblygiad a gwelliant pellach gwasanaethau mamolaeth ledled ardal y Bwrdd Iechyd; a
- rhoi ffocws newydd ar hybu normalrwydd gofal gyda’r rhaglen i ailgyflunio ei wasanaethau mamolaeth yn 2014. Fodd bynnag, mae’r cyfraddau Toriadau Cesaraidd yn dal i fod yn uchel ac mae arferion meddygon ymgynghorol yn amrywio yn hyn o beth.

# Meysydd i’w gwella

9 Wrth gynnal y diweddariad hwn ar gynnydd nid ydym wedi adnabod unrhyw risgiau sylweddol newydd mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth, ac felly nid ydym wedi awgrymu unrhyw feysydd newydd i’w gwella. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd barhau i wneud cynnydd o ran mynd i’r afael ag un maes i’w wella nad yw’r argymhelliad ar ei gyfer wedi cael ei roi ar waith. Caiff hwn ei nodi yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: maes i’w wella

| Argymhelliad ar gyfer maes i’w wella yn 2011 sy’n dal heb gael ei roi ar waith |
|---|

| | |
|---|---|
| 7. | Rydym yn cydnabod y bydd y sbardun i ddarparu lefel normal o ofal yn erbyn cefndir cynyddol gymhleth yn gryn her. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn nodi'n glir feysydd ymarfer nad ydynt wedi gwella ers ein hadolygiad diwethaf. Mae dulliau rheoli gofal anghyson, lefelau uchel o sganio uwchsain a chyfraddau toriadau Cesaraidd uchel yn peri pryder o hyd. |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Cynnydd y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud yn erbyn ein meysydd i'w gwella yn 2011

Arddangosyn 3: asesiad o'r cynnydd

| Maes i'w wella yn 2011 | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| 1. Yn dilyn ei waith cynllunio manwl mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth, rhaid i'r Bwrdd Iechyd fynd ati ar fyrder i gytuno ar y dewisiadau sydd ganddo i'r dyfodol ac ymgynghori arnynt. | **Implemented** | Fe weithredodd y Bwrdd Iechyd raglen fawr i ailgyflunio gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a phediatrig ym mis Awst 2014. Roedd hyn yn dilyn cyfnod o waith cynllunio ac ymgynghori.<br>Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd y canlynol:<br>• ymgynghori'n eang â chlinigwyr arweiniol i ystyried yr opsiynau a'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth;<br>• rhoi cyfrif am benderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth Cenedlaethol.<br>• sefydlu'r grŵp rhaglen Gwasanaethau Menywod a Phlant i gryfhau'r weledigaeth strategol a gwaith cyflenwi.<br>O ganlyniad i'r gwaith hwn, fe sefydlwyd y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Menywod a Phlant ar sail Bwrdd Iechyd cyfan. Sefydlwyd nifer o wasanaethau newydd:<br>• uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd yn Ysbyty Llwynhelyg.<br>• uned a arweinir gan fydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili.<br>• uned obstetreg yn Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Cyffredinol Bronglais – mae cleifion risg uchel y mae arnynt angen gwasanaethau newyddenedigol yn cael eu darpariaeth yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili; |

| Maes i'w wella yn 2011 | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| | | • canoli'r holl wasanaethau newyddenedigol yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili.<br>Mae pob un o'r unedau a arweinir gan fydwragedd wedi cael ei datblygu yn unol â Chanllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Unedau a Arweinir gan Fydwragedd. |
| 2. Mae absenoldeb obstetregydd ymgynghorol arweiniol ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan yn ei gwneud hi'n anodd uno gwasanaethau, dylanwadu ar ymarfer a sbarduno gwell ymgysylltu rhwng siroedd. | Wedi'i roi ar waith | Penodwyd obstetregydd ymgynghorol arweiniol ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan yn 2014 fel rhan o'r rhaglen i ailgyflunio gwasanaethau newyddenedigol, mamolaeth a phediatrig. |
| 3. Mae diffyg systemau gwybodaeth ar gyfer mamolaeth yn golygu bod uwch fydwragedd yn rhoi o'u hamser gwerthfawr i fewnbynnu a chynhyrchu ystadegau ar famolaeth, sy'n hynod aneffeithlon. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd ati ar fyrder i sefydlu system wybodaeth effeithiol sy'n golygu bod modd casglu ac adrodd gwybodaeth ym maes mamolaeth yn effeithlon er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio a rheoli perfformiad. | Implemented | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r diffyg system wybodaeth am famolaeth. Mae wedi rhoi modiwl mamolaeth system Myrddin ar waith ar bob safle i gasglu ystadegau a ddefnyddir i boblogi'r dangosfwrdd mamolaeth yn electronig. Cyhoeddir y dangosfwrdd yn fisol.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dangosfwrdd newydd enedigol hefyd ac wedi ei roi ar waith.<br>Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Menywod a Phlant yn cael y dangosfyrddau hyn, ynghyd â diweddariadau ar dargedau Haen 1 cyfredol. Defnyddir yr wybodaeth i fonitro perfformiad gwasanaethau ac i arwain gwaith cynllunio. |
| 4. Nid yw'r fframwaith rheoli perfformiad a'r trefniadau atebolrwydd presennol yn cefnogi gwelliannau mewn perfformiad, ac maent yn arbennig o wan o ran newid a dylanwadu ar ymarfer obstetryddion ymgynghorol. | Implemented | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad a threfniadau atebolrwydd sy'n cynnwys:<br>• adolygiadau gan y Prif Weithredwr gyda thimau cyfarwyddiaethau; ac<br>• adolygiadau gan y Prif Weithredwr gyda thimau'r cyfarwyddiaethau o bob agwedd ar berfformiad, gan gynnwys ansawdd a diogelwch, gwella profiad cleifion, y gweithlu, effeithlonrwydd, perfformiad Haen 1 a pherfformiad ariannol.<br>Penodwyd obstetregydd ymgynghorol arweiniol ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan yn 2014. |

| Maes i'w wella yn 2011 | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| | | Mae is-bwyllgorau'r Bwrdd gan gynnwys y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, Profiad a Sicrwydd (QSEAC) a'r Pwyllgor Cynllunio Busnes a Pherfformiad (BPPAC) yn ystyried adroddiadau ar faterion gwasanaeth-benodol.<br>Mae Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Menywod a Phlant yn cwrdd yn fisol i ystyried ystod o ddangosyddion perfformiad gan gynnwys y Dangosfwrdd mamolaeth, pryderon/cwynion, digwyddiadau a dangosyddion effeithlonrwydd gwasanaethau.<br>Fe sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp clinigol obstetreg a bydwreigiaeth amlddisgyblaethol yn 2016 sydd wedi blaenoriaethu adolygu ac arloesi o fewn timau clinigol. Er enghraifft:<br>• gweithredu adolygiadau o wasanaethau Asesjadau Dydd Mamolaeth a Chlinigau Cynenedigol; a<br>• dechrau ar VBAC (Genedigaethau Gweiniol Ar Ôl Toriad Cesaraidd) ar bob safle fel rhan o strategaeth i leihau cyfraddau toriadau Cesaraidd. |
| 5. Er bod llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran ymgysylltu â defnyddwyr, mae'n allweddol bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal y momentwm. Yn ogystal, mae'n bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn manteisio ar y cyfleoedd o ganlyniad i'r ymgysylltu hwn trwy danlinellu pa mor bwysig ydyw ymhlith staff meddygol a sicrhau bod allbynnau a chanlyniadau'n cael eu defnyddio'n amlwg fel dulliau allweddol o sbarduno newid. | **Implemented** | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â materion ymgysylltiad defnyddwyr. Fe ddiwygiodd ei gynllun i ailsefydlu Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC) oherwydd anawsterau logistaidd o ran sicrhau aelodau. Fe sefydlodd ddull arall gyda rheolwyr Bydwreigiaeth yn ymgysylltu â nifer o grwpiau defnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys:<br>• grwpiau ôl-enedigol;<br>• grwpiau bwydo ar y fron;<br>• anawsterau dysgu; ac<br>• elusen SANDS (Stillbirth and Neonatal Death) a grwpiau profedigaeth eraill.<br>Mae'r cynllun diwygiedig yn unol â safonau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Goleg Brenhinol y Gynaecolegwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol bod â 'Phwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth neu strwythur arall sy'n sefydlu'r arfer o gynnwys defnyddwyr'. Mae Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Menywod a Phlant wedi cael ei sefydlu fel dewis arall. Fe gymeradwywyd strategaeth a chynllun cyfathrebu i gefnogi'r prosiect trawsnewid i ailddatblygu cyfleusterau mamolaeth a newyddenedigol a ariennir â chyllid cyfalaf.<br>Mae'r cynllun yn cynnwys mecanweithiau amrywiol ar gyfer ymgysylltu gan gynnwys<br>• digwyddiadau galw heibio a digwyddiadau pwrpasol ar gyfer grwpiau allweddol;<br>• grwpiau mamau a phlant bach;<br>• grwpiau nam ar y synhwyrau ac anabledd;<br>• digwyddiadau ymgysylltu 'ar-lein' rhithwir gyda'r cyhoedd; |

| Maes i'w wella yn 2011 | Statws | Crynodeb o'r cynnydd |
| --- | --- | --- |
| | | • 'Byrddau Graffiti' ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau cyfredol;<br>• briffio â phosteri; a<br>• mecanweithiau adrodd.<br>Casglwyd adborth ar y cynllun trawsnewid Cam 2 a chynigir dull tebyg ar gyfer y cynllun cyfalaf 'Cam 3'.<br>Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Menywod a Phlant yn casglu adborth gan ddefnyddwyr yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd ar eu profiadau, ac mae wedi sefydlu grŵp Facebook caeedig peilot ar gyfer yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd yn Ysbyty Llwynhelyg i annog mamau beichiog a newydd i ryngweithio â'r gwasanaeth.<br>Mae staff meddygol yn rhan o gefnogi'r gweithgareddau uchod.<br>Ochr yn ochr â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad o Ddatblygu Sefydliadol (Prosiect Cefnogi Profiad Cadarnhaol ar gyfer Staff) o fewn y gwasanaeth i gael barn staff i ategu datblygiad a gwelliant pellach gwasanaethau. |
| 6. Er bod nifer o fecanweithiau wedi'u rhoi ar waith i gefnogi gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol, mae bylchau'n bodoli o hyd ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn ac adolygiad sicrwydd Cronfa Risg Cymru eleni i gryfhau ei drefniadau presennol. | Wedi'i roi ar waith | Gweler y sylwadau yn y crynodeb o'r cynnydd ar gyfer 1. uchod, ynghylch y rhaglen fawr i ailgyflunio gwasanaethau ym mis Awst 2014.<br>Fe gomisiynodd y Bwrdd Iechyd werthusiad o'r newidiadau i wasanaethau gan Goleg Brenhinol y Pediatryddion ac Iechyd Plant yn 2015. Mae wedi datblygu cynllun gwaith cynhwysfawr i gefnogi datblygiad a gwelliant pellach gwasanaethau mamolaeth ledled ardal y Bwrdd Iechyd.<br>Dynododd y Bwrdd Iechyd fod yr holl gamau gweithredu a amlygwyd yn ei ymateb yn 2014 i'n hadroddiad yn 2011 yn dal i fod yn eu lle.<br>Hefyd, mae arweinwyr risg clinigol ar gyfer bydwreigiaeth ac obstetreg wedi cael eu penodi. |
| 7. Rydym yn cydnabod y bydd y sbardun i ddarparu lefel normal o ofal yn erbyn cefndir cynyddol gymhleth yn gryn her. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn nodi'n glir feysydd ymarfer nad ydynt wedi gwella ers ein hadolygiad diwethaf. Mae dulliau rheoli gofal anghyson, lefelau | Ar y gweill | Rhoddodd y Bwrdd Iechyd ffocws newydd ar hybu lefel normal o ofal wrth ailgyflunio ei wasanaethau mamolaeth yn 2014:<br>• sefydlwyd dwy uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd yn Ysbyty Llwynhelyg ac Ysbyty Cyffredinol Glangwili;<br>• penodwyd bydwraig Band 7 i hyrwyddo'r unedau a arweinir gan fydwragedd;<br>• fe ymgymerodd bydwraig ymgynghorol newydd â'i swydd ym mis Tachwedd 2017 i ddarparu arweinyddiaeth glinigol ac academaidd ar gyfer y tîm bydwreigiaeth.<br>• sefydlwyd rhaglen addysg barhaus i hybu normalrwydd gofal |

| Maes i’w wella yn 2011 | Statws | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|
| uchel o sganio uwchsain a chyfraddau toriadau Cesaraidd uchel yn peri pryder o hyd. | | • mae defnydd o’r unedau a arweinir gan fydwragedd yn cael ei fonitro’n rheolaidd trwy gyfarfodydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion y gyfarwyddiaeth.<br>• cwblhawyd adolygiad o lwybrau a chanllawiau a sefydlwyd un strwythur llywodraethu ar gyfer y gyfarwyddiaeth.<br>Fel a grybwyllwyd uchod (gweler A4), cynhaliwyd adolygiadau o’r gwasanaethau canlynol:<br>• Gwasanaeth Asesiadau Dydd Mamolaeth<br>• Gwasanaeth Clinig Cynenedigol<br>Dechreuodd VBAC (Genedigaethau Gweiniol Ar Ôl Toriad Cesaraidd) ar bob safle fel rhan o strategaeth i leihau cyfraddau Toriadau Cesaraidd.<br>Fe nododd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Menywod a Phlant bryderon ynghylch cyfraddau uchel o ran toriadau Cesaraidd yn ystod 2017. Roedd y Dangosfwrdd Mamolaeth ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Tachwedd 2017 yn nodi cyfraddau arbennig o uchel ar y cyfan (dewisol a brys) mewn pedwar mis:<br>Mehefin – 33.2 y cant<br>Awst – 34.6 y cant<br>Medi – 30.0 y cant<br>Tachwedd – 30.5 y cant<br>Mynegodd y Pwyllgor fwriad i sefydlu golwg fanylach ar weithgarwch Toriadau Cesaraidd, gyda golwg ar gymryd camau gweithredu mewn perthynas â ffactorau sy’n arwain at gyfraddau uwch. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru